


Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Gweminar
6 Ebrill 2022


Casgliad cyffredinol




Mae Taliadau Uniongyrchol **yn ategu annibyniaeth pobl** ac yn cael eu **gwerthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr,**

ond

mae anghysondebau yn y ffordd y cânt eu hyrwyddo a'u rheoli gan awdurdodau lleol yn **golygu nad yw gwasanaethau bob amser yn deg** ac mae'n **anodd asesu gwerth am arian cyffredinol**



Ein canfyddiadau.....



Awdurdodau lleol sy'n
dda am **hyrwyddo**
Taliadau Uniongyrchol




Awdurdodau lleol
sy'n **rheoli** Taliadau
Uniongyrchol yn
effeithiol



Awdurdodau lleol sy'n
cyflawni deilliannau
cadarnhaol ar gyfer
pobl sy'n defnyddio
Taliadau Uniongyrchol


Hyrwyddo – yr hyn y gwnaethom chwilio amdano



Mae ganddynt wybodaeth gyhoeddus syml a chryno y trefnir ei bod ar gael mewn ystod eang o gyfryngau ac sydd wedi cael ei phrofi i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn dweud yr hyn y mae ar bobl angen ei wybod




Maent yn cynnig ac yn annog pobl i ddefnyddio eiriolaeth annibynnol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus



Maent yn defnyddio'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn y broses asesu i egluro Taliadau Uniongyrchol




Caiff Taliadau Uniongyrchol eu hyrwyddo fel opsiwn o leiaf yn gyfartal gyda dewisiadau eraill



Nid yw pobl yn cael eu cefnogi'n gyson i dderbyn Taliadau Uniongyrchol

- Gwybodaeth hygyrch o ansawdd da, ategu pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth a gwneud dewisiadau gwybodus
- Er bod uwch reolwyr yn cydnabod gwerth Taliadau Uniongyrchol, nid yw staff gofal cymdeithasol bob amser yn dangos hyder wrth hyrwyddo eu defnydd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

Rheoli Taliadau Uniongyrchol – yr hyn y gwnaethom chwilio amdano



Maent yn helpu pobl i gael gafael ar Gynorthwyywr Personol a'u defnyddio



Maent yn 'datgyfrinio' yr hyn yw Taliadau Uniongyrchol ac yn rhoi digon o gymorth i sicrhau pobl ynghylch gofynion o ran cyflogaeth, rhwymedigaethau a phrosesau i droi atynt. Cyfyngir i'r eithaf ar fiwrocratiaeth



Maent yn nodi'n glir ar gyfer beth ellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol gan roi enghreifftiau o'r math o gymorth sydd ar gael a, lle y bo'n bosibl, gan roi anogaeth i arloesi



Maent yn cynnal cyswllt rheolaidd a pharhaus ac yn rhoi cymorth a gwybodaeth i oedolion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i egluro cyfrifoldebau a sicrhau bod pobl yn cadw'n ddiogel




Maent yn gweithio i drefnu'r 'farchnad' a thrwy wella mynediad at Gynorthwyywr Personol, gan annog mwy o ddarparwyr, rheoli costau a rhoi anogaeth i gyfuno cyllidebau



Maent yn cytuno ar y cyd â chyrrff y GIG sut orau i ddiwallu anghenion cleientiaid sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol a Gofal lechyd Parhaus y GIG fel nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais



Defnyddio Taliadau Uniongyrchol – yr hyn a ganfuwyd gennym



Mae rheoli ac ategu pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n fawr gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn derbyn safonau gwasanaeth gwahanol

- Mae Cynorthwyr Personol yn hanfodol i bobl sy'n manteisio i'r eithaf ar Daliadau Uniongyrchol, ond mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd eu recriwtio
- Mae'r rhyngwyneb rhwng defnyddio gofal iechyd parhaus y GIG a gofal cymdeithasol ar fynediad i Daliadau Uniongyrchol yn parhau i fod yn broblem
- Mae gan bobl mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau cymorth i helpu i reoli Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol brofiad cyffredinol mwy cadarnhaol na'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth 'wedi'i gomisiynu'


Canfyddiadau'r arolwg derbynwyr



■ Awdurdodau lleol heb ddarpariaeth fewnol bwrpasol


■ Awdurdodau lleol â darpariaeth fewnol bwrpasol

Defnyddio Taliadau Uniongyrchol – yr hyn a ganfuwyd gennym




- Cynyddodd ychydig o dan ddwy ran o dair o awdurdodau lleol y nifer sy'n manteisio ar Taliadau Uniongyrchol rhwng 2016-17 a 2018-19, ond dim ond 5% o'r holl oedolion a oedd yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedd yn eu derbyn
- Defnyddir Taliadau Uniongyrchol yn wahanol ledled Cymru ac mae gan awdurdodau lleol ddulliau gwahanol o ymdrin â chronfeydd nas defnyddir


Canfyddiadau'r arolwg derbynwyr



Profiadau derbynwyr Taliadau Uniongyrchol o'r hyn sy'n digwydd i daliadau sy'n cronni dros amser.



Cyflawni – yr hyn y gwnaethom chwilio amdano



Maent yn dangos bod llesiant pobl yn cael ei gynnal neu'n gwella o ganlyniad i Daliadau Uniongyrchol



Mae ganddynt system gynhwysfawr ar gyfer monitro a gwerthuso pob agwedd ar Daliadau Uniongyrchol




Maent yn cynnwys ac yn gwerthfawrogi mewnbwn gan yr holl randdeiliaid/partneriaid wrth werthuso effaith gwasanaethau



Maent yn cymharu ac yn meincnodi perfformiad unigol a chyfunol ag eraill ac yn defnyddio canfyddiadau gwerthuso i drefnu cynlluniau cyfredol a dulliau yn y dyfodol





Maent yn gwybod beth sy'n gweithio a pha un a yw dull yr awdurdod yn cyflawni dyheadau'r Ddeddf




Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu pobl i fyw'n annibynnol a gwella eu lles, ond mae'n anodd asesu gwerth am arian cyffredinol oherwydd cyfyngiadau mewn data a gwerthuso

- Ystyrir bod Taliadau Uniongyrchol yn gwneud cyfraniad pwysig i les ac annibyniaeth derbynwyr
- Mae'n anodd asesu gwerth am arian cyffredinol Taliadau Uniongyrchol gan fod systemau ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad yn annigonol
- Mae'r gwariant ar Taliadau Uniongyrchol wedi mwy na dyblu yn ystod y degawd diwethaf, ond gostyngodd fymryn yn 2020-21. Mae'r swm cyfartalog a delir fesul derbynnydd yn amrywio'n fawr


Dadansoddiad data StatsCymru




Dadansoddiad data StatsCymru



Mae'r swm cyfartalog y mae pobl yn ei gael mewn Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang ledled Cymru.






10 argymhelliad, wedi'u hanelu'n fras at:

- Wella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hygyrchedd
- Gwella capasiti ac argaeledd cynorthwywyr personol
- Egluro disgwyliadau polisi i fynd i'r afael â'r loteri cod post cyfredol
- Gwella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol
- Gwella trefniadau monitro perfformiad er mwyn dangos yn well effaith a gwerth am arian Taliadau Uniongyrchol

Recommendation



Y camau nesaf



- Adroddiad a gyhoeddwyd heddiw.
- Cyflwyniad i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.
- Disgwyliad y cyflwynir yr adroddiad hwnnw i bob Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried.
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a ddisgwylir.
- Olrhain y gwaith o gyflawni argymhellion dros amser.

